OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 1716 (Cy.163)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2008

Gwnaed - - - -	*28 Mehefin 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*1 Gorffennaf 2008*
Yn dod i rym - -	*31 Gorffennaf 2008*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 27 o Ddeddf Gofal Plant 2006(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2008 a deuant i rym ar 31 Gorffennaf 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygiadau i Reoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2008.

2.—(1) Mae Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2008 (**3**) yn cael eu diwygio fel a ganlyn:—

(2) Yn rheoliad 4(1)(f) yn y testun Cymraeg yn unig yn lle "Gynulliad Cenedlaethol Cymru" rhodder "Weinidogion Cymru".

(3) Yn rheoliad 4(1)(h) yn y testun Saesneg yn unig yn lle "National Assembly for Wales" rhodder "Welsh Ministers".

(4) Yn rheoliad 6, yn y testun Cymraeg yn unig, yn lle'r ymadrodd "awdurdodau lleol", rhodder yr ymadrodd "awdurdod lleol".

(5) Yn rheoliad 7, yn y testun Cymraeg yn unig, rhwng "gwybodaeth" ac "yn" mewnosoder "ar unrhyw wasanaethau neu gyfleusterau eraill neu unrhyw gyhoeddiadau".

(6) Yn rheoliad 9, yn y testun Cymraeg yn unig, yn lle "adnoddau", rhodder "ffynonellau".

(**1**) 2006 p.21.
(**2**) Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
(**3**) O.S. 2008/170 (Cy.23).